

## Sgript Dic Penderyn

**Gwisg:** *Gwisg syml fydd yn adlewyrchu gwisg gweithiwr yn y pyllau haearn ym 1831*

**Props:** *Polyn pren gyda baner goch syml wedi'i chlymu ar ei ben – bydd angen gosod hon ar y llawr cyn dechrau ar y perfformiad*

*Corn syml ym mhoced Dic neu wedi'i glymu wrth ei felt*

### **Sgript:**

Shw'mae'i? Richard Lewis ydw i... wel, dyna fy enw go-iawn i – ond falle fyddwch chi'n fy nabod i'n well fel... Dic Penderyn.

Dwi'n byw ym Merthyr Tudful. Hynny yw, fe o'n i'n byw ym Merthyr Tudful cyn i fi farw ym 1831 – bron i ddau gan mlynedd yn ôl. Dal i edrych yn dda, on'd ydw i? Cofiwch, ches i mo 'ngeni ym Merthyr: symud 'na wnes i o Aberafan ger Port Talbot.

Ro'dd Merthyr Tudful yn lle poblog iawn ym 1831, gyda llawer yn symud 'na i fyw er mwyn câl gwaith. Chi'n gweld, ro'dd 'na lo, haearn a chalchfaen o dan y ddaear ym Merthyr, felly, ro'dd 'na lot o waith yn y pylle yn cloddio amdany'n nhw. O'n i'n gweithio yn un o'r pylle haearn – Pwll Penydarren – ac er mwyn câl yr haearn, ro'dd rhaid inni gloddio mewn twneli o dan y ddaear. Ro'dd llawer o fy ffrindie i'n gweithio mewn pylle haearn a glo hefyd. Un o fy ffrindie gore i odd fy nghefnder, Lewsyn yr Heliwr!

Gredwch chi fyth, ond ro'n ni'n gweithio yn y twneli 'ma bob dydd am 12 awr. Lle afiach i weithio odd e 'fyd, a'r mwg du odd yn codi wrth gloddio yn wael iawn i'r ysgyfaint. Ond ro'dd rhaid inni weithio er mwyn ennill arian i fyw! Odd y gwaith yn ddigon caled i ddynion fel fi odd yn cloddio'r haearn, ond pwy y'ch chi'n meddwl odd yn gyfrifol am gludo'r haearn yn y trolie mawr mas o'r pylle?

Ie, 'na chi – y plant. Ro'dd 'na sawl swydd ro'dd plant fel arfer yn eu neud. Un ohonyn nhw odd agor a chau dryse yn y pylle i neud yn siŵr bod aer yn cylchdroi o gwmpas. A swydd arall odd gwthio'r trolie metel. Druan â'r plant... do'n nhw ddim yn gallu mynd i'r ysgol achos ro'dd rhaid iddyn nhw weithio i gâl arian ar gyfer eu teuluoedd.

Ond ro'dd gan rai ddigonedd o arian! Pobol fel William Crawshay er enghraifft, sef un o'r bobol odd yn berchen ar y pylle haearn. Do'dd e ddim yn talu llawer i'r gweithwyr, felly ro'n ni'n dlawd, tra ro'dd e'n byw bywyd braf iawn! Roedd ganddo fe ddigon o arian i adeiladu castell hyd yn oed, a mae e yna o hyd. Gallwch chi ddal i fynd i weld Castell Cyfarthfa heddi ym Merthyr!

Odd e'n meddwl ei fod e'n bwysig, ond hen ddyn atgas odd e. Ro'dd pobol fel fi a Lewsyn yn dlawd a phrin yn gallu talu am fwyd a rhent, ac ym mis Mai 1831, gredwch chi fyth beth 'nath William Crawshay! Wel, fe weda'i wrthoch chi! Mi benderfynodd e dalu hyd yn oed llai o arian i ni am ein gwaith yn y pylle. Gallwch chi gredu hynny?

Ro'n i, Lewsyn a holl weithwyr y pylle'n gynddeiriog pan glywon ni hyn. Sut ro'dd disgwyl i ni a'n teuluoedd fyw ar gyn lleied o arian? Ro'dd llawer ohonon ni mewn dyled yn barod, gan gynnwys Lewsyn!

Wel! Digon yw digon! Ro'dd hi'n hen bryd i rywbeth newid! Ro'dd rhaid inni godi'n lleisie i bawb gâl clywed. A dyna pryd y penderfynon ni fynd i brotestio! A chreu baner – baner fydde'n symbol o'n dioddefaint ni.

*Mae Dic yn codi'r faner ar ei pholyn oddi ar y llawr ac yn ei dal yn uchel*

Baner goch, drychwch! Ni odd y cynta i ddefnyddio baner goch fel symbol o ddiodeffaint, ac ers hynny ma llawer wedi neud hynny ar draws y byd i gyd! Ac fe roion ni dorth ar ben y polyn er mwyn dangos pam ro'n ni'n protestio – bwyd yn ein bolie ni am bris teg.

Felly, ar ddachre Mehefin 1831, dechreuodd miloedd ohonon ni, yn weithwyr y pylle, yn fenywod, yn blant ac yn hen bobol, gerdded i Ferthyr, yn chwifio'r faner goch yn uchel, yn llawn sŵn, ac yn canu cyrn.

*Mae'n estyn yr hen gorn at ei geg ac yn chwythu nodyn swnllyd ac egniol*

A phwy y'ch chi'n meddwl odd ar flân y dorf? Ie, 'na chi – fy ffrind i, Lewsyn yr Heliwr, dyn yr odd pawb yn ei barchu.

“Bara neu waed fydd hi nawr,” medde fe wrthon ni, ac fe gydiodd pawb yn y geirie 'na achos eu bod nhw'n rhai da.

*Mae'n edrych yn daer ar y gynulleidfa*

Dewch gyda ni! Dewch! Ma rhaid inni lynu gyda'n gilydd – a threchu'r hen William Crawshay 'na unwaith ac am byth! Chi'n barod?

*Mae Dic yn chwythu nodyn swnllyd arall ar y corn cyn dechrau gweiddi'r slogan a cherdded oddi ar y llwyfan fel pe bai e'n mynd i'r brotest. Y gweiddi i barhau tan iddo adael y llwyfan.*

Bara neu waed! Bara neu waed! Bara neu waed! Bara neu waed! Bara neu waed! Bara neu waed...